

Crynodeb Gweithredol a Chyflwyniad

1. Golyga Cymorth Cyfreithiol fod profi yn rhan hanfodol o'r system gyfiawnder. Mae'n sicrhau fod y rhai mewn mwyaf o angen yn cael cymorth gyda thalu eu costau cyfreithiol a bod y rhai sy'n gallu fforddio i gyfrannu tuag at eu costau cyfreithiol yn gwneud hynny. Cynhelir mynediad at gyfiawnder pan fo gwasanaethau cyfreithiol ar gael i'r rhai hynny mewn angen a bydd ein cynigion yn arwain at newidiadau sylweddol fydd yn gwella cymhwysedd am gymorth cyfreithiol ac, yn ei dro, yn hyrwyddo mynediad at gyfiawnder.
2. Bu i ni gyhoeddi'r Adolygiad o'r Profion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol yn Chwefror 2019, fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cefnogaeth Gyfreithiol. Asesodd yr adolygiad pa mor effeithiol yw'r prawf modd o ran gwarchod mynediad at gyfiawnder, yn enwedig felly i'r rhai sy'n fregus.
3. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr ymgynghoriad ynghylch Adolygiad o'r Profion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol ar 15 Mawrth 2022. Yn y papur hwn adroddir ar yr ymatebion a gafwyd, unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion ymgynghori yn wyneb yr ymatebion hyn a disgrifir y polisiâu y byddwn yn bwrw ymlaen i'w gweithredu. Caeodd yr ymgynghoriad ar 7 Mehefin 2022 a chafodd y llywodraeth 126 o ymatebion.
4. Yn sgil dadansoddiad manwl o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd y mesurau y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw, i enwi ychydig ohonynt yn unig, yn gweld: cynnydd mewn trothwyon, diystyru taliadau iawndal penodol, diystyru cyfalaf nad oes modd cael ato a gwneud i ffwrdd â'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth sifil i blant. Mae mwy o fanylion i'w cael yn hwyrach ymlaen yn yr ymateb cynhwysfawr hwn i'r ymgynghoriad.
5. At ei gilydd, yn gyson, bydd cleientiaid yn elwa'n flynyddol o hyd at 3,000 yn fwy o achosion o gynrychiolaeth sifil ac o hyd at 19,000 yn fwy o achosion o gymorth cyfreithiol dan y profion modd newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ac o hyd at 13,000 yn ychwanegol o achosion llys ynadon a 200 o achosion Llys y Goron dan y profion modd newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol. ¹ Unwaith y maent wedi'u gwreiddio, amcangyfrifwn y bydd y newidiadau hyn yn arwain at wario hyd at £25 miliwn yn ychwanegol ar gymorth cyfreithiol bob blwyddyn. Mae rhagor o

¹Mae hyn yn cymryd fod Credyd Cynhwysol (CC) wedi'i gyflwyno'n llwyr erbyn pryd y gweithredir y profion modd newydd. Os nad yw CC wedi'i gyflwyno'n llwyr, gallai nifer yr ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil a fyddai'n elwa, fod yn uwch hyd oni bydd wedi'i gyflwyno.

wybodaeth ynghylch dadansoddi'r amcan gost hon i'w chael yn yr Asesiadau o Effaith sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

6. Mae'r adolygiad hwn wedi bod yn un agored a chydweithredol. Rydym yn ddiolchgar am ymgysylltiad gwerthfawr ystod eang o bartïon â diddordeb trwy gydol y cyfnod ymgynghori ac yn ystod yr adolygiad, yn eu plith: ymarferwyr cyfreithiol o ar draws y sector cymorth cyfreithiol, sefydliadau trydydd sector, y farnwriaeth ac arbenigwyr academiaidd.

Strwythur yr ymateb

7. Mae'r papur hwn yn disgrifio ac yn ystyried yr ymatebion a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad ynghylch Adolygiad o'r Profion Modd. Nid ydym wedi ail-adrodd rhesymeg y polisi llawn ar gyfer pob cynnig yn yr ymgynghoriad. Dylai'r darllenwyr gyfeirio at y papur ymgynghori ar gyfer disgrifiadau cynhwysfawr o'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymateb.
8. Ym Mhennod 2 nodir ein hagwedd gyffredinol at gymhwysedd am gymorth cyfreithiol ac ynddi ceir ymateb y llywodraeth i gwestiynau 1-12 yr ymgynghoriad. Ym Mhenodau 3,4 a 5 ceir ein cynigion mewn perthynas â chymorth cyfreithiol sifil. Ym Mhennod 3 ymdrinnir â throthwyon, pasbortio a chyfraniadau incwm sifil trwy gyfeirio at gwestiynau 13-28 yr ymgynghoriad. Ym Mhennod 4 disgrifir ein hagwedd at drothwyon, achosion o ddiystyru a phasbortio cyfalaf sifil trwy gyfeirio at gwestiynau 29-39 yr ymgynghoriad. Ym Mhennod 5 ymdrinnir â'n cynigion ar fewnfudo a lloches, rhai dan 18 oed ac achosion nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd, fel y disgrifir gan gwestiynau 40-50 yr ymgynghoriad.
9. Ym Mhenodau 6 a 7 ceir manylion ein cynigion mewn perthynas â chymorth cyfreithiol troseddol. Ym Mhennod 6 nodir mesurau sy'n ymwneud â throthwyon, pasbortio a chyfraniadau incwm a chyfalaf Llys y Goron, trwy gyfeirio at gwestiynau 51-74 yr ymgynghoriad. Ym Mhennod 7 ymdrinnir â phrofion modd llysoedd ynadon a chynghor a chymorth troseddol/cymorth eiriolaeth, trwy gyfeirio at gwestiynau 75-86 yr ymgynghoriad.
10. Ym Mhennod 8 amlinellir ein cynigion ar gyfer gweithredu, pontio rhwng y prawf modd cyfredol a'r un diwygiedig ac adolygu'r sefyllfa ar ôl y gweithredu. Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i gwestiynau 87-109 yr ymgynghoriad.
11. Mae'r Asesiadau o'r Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb wedi'u cyhoeddi ar-lein ochr yn ochr â'r papur ymateb hwn.

Crynodeb o'r Ymgynghoriad

12. Fel y nodir, byddwn yn symud ymlaen gydag ystod eang o newidiadau i'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol, gyda'r nod o sicrhau tegwch, effeithlonrwydd, cynaliadwyedd ac yn hanfodol, mynediad at gyfiawnder. Mewn rhai achosion,

byddwn yn debycach, o ran dull gweithredu, at gymorth cyfreithiol sifil a throreddol. Mae'r mesurau cyffredinol hyn wedi'u nodi ym mhennod 2 ac yn ymdrin yn benodol â'r cynigion a ganlyn:

- defnyddio dull seiliedig ar gostau byw ar gyfer y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, fel yr ydym eisoes yn ei wneud ar gyfer y prawf modd ar gyfer Llys y Goron a'r llys ynadon
- defnyddio'r dull Addasedig OECD i addasu incwm gros a'r incwm gwario ar gyfer aelwydydd â chyfansoddiadau gwahanol.
- diystyru Treth y Cyngor o'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil (fel ar gyfer y prawf modd ar gyfer Llys y Goron a'r llys ynadon) a chael gwared â'r cap o £545 y mis ar gostau tai.
- uwchraddio'r lwfans gwaith cyfredol ar gyfer y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a gweithredu lwfans tebyg yn y prawf modd ar gyfer Llys y Goron a'r llys ynadon.
- didynnu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr a dyledion blaenoriaeth a chyfraniadau pensiwn hyd at enillion o 5%, o'r asesiad o'r incwm gwario.

13. Ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, ym mhennod 3 nodir mesurau ar gyfer trothwyon, pasbortio a chyfraniadau incwm sifil, yn benodol felly:

- cynnydd sylweddol i'r trothwyon incwm, gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar gostau byw
- ei gwneud yn ofynnol i rai sy'n cael Credyd Cynhwysol gydag enillion aelwyd uwchlaw £500 y mis i fynd trwy asesiad incwm, yn hytrach na chael eu pasbortio fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- terfyn amser o 24 mis ar gyfnod yr amser y telir cyfraniadau incwm

14. Ym Mhennod 4 nodir mesurau ar gyfer trothwyon, achosion o ddiystyru a phasbortio cyfalaf sifil, yn benodol felly:

- cynnydd yn y trothwyon cyfalaf gwario a'r lwfans cydraddoldeb
- diystyru taliadau iawndal ac ex-gratia a thaliadau am niwed ar gyfer niwed personol, a budd-daliadau wedi'u hôl-ddyddio a thaliadau cynnal plant, o'r asesiad cyfalaf
- diystyru eiddo y mae anghydfod yn ei gylch yn yr achos y mae'r unigolyn yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol ar ei gyfer

- diystyru cyfalaf nad oes modd cael ato, na ellir ei werthu na benthyg yn ei erbyn i ariannu gwasanaethau cyfreithiol
- esemptio o'r asesiad cyfalaf rai sy'n cael budd-daliadau lles penodol ac nad sy'n berchen ar dŷ

15. Ym Mhennod 5 disgrifir y mesurau arfaethedig ar gyfer lloches a mewnfudo, rhai dan 18 oed ac achosion nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd. Yn benodol felly, y mesurau yr ymdriniwyd â nhw yw: gwneud i ffwrdd â'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth sifil i blant dan 18 oed ac i rieni neu i'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant y mae triniaeth cynnal bywyd eu plant yn cael ei thynnu oddi wrth y plant neu'n cael ei hatal. Ym Mhennod 5 hefyd ymdrinnir â gwneud i ffwrdd â'r prawf modd am gymorth cyfreithiol mewn perthynas â chwestau sy'n ymwneud â thorri, o bosibl, hawliau ECHR (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998) neu lle mae'n debygol bod diddordeb sylweddol ehangach gan y cyhoedd yn yr unigolyn a gynrychiolir yn y cwest.

16. Ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol, nodir ym Mhennod 6 gynigion ar gyfer trothwyon incwm a chyfalaf, pasbortio a chyfraniadau Llys y Goron, yn benodol felly, cynigion i:

- gynyddu'r trothwyon incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron a'r Llys Ynadon, er mwyn ystyried cynnydd mewn ffioedd cyfreithiol preifat a chostau byw
- cynyddu'r cyfnod cyfrannu hwy ar gyfer cyfraniadau incwm yn Llys y Goron i 18 mis, a gweithredu cyfradd gyfrannu yn ôl haenau (40%/60%/80%)
- gwneud i ffwrdd â throthwy'r incwm gwario uchaf am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron
- gwneud i ffwrdd â'r esemptiad cyfredol i berchnogion tai a ddedfrydwyd yn Llys y Goron ac sydd yn cael budd-daliadau wedi'u pasbortio rhag talu cyfraniad cyfalaf

17. Ym Mhennod 7 nodir cynigion ar gyfer y llys ynadon, cyngor a chymorth troseddol a chymorth eiriolaeth, yn benodol felly, cynigion i:

- barhau i basportio pawb sy'n cael budd-daliadau perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) trwy'r asesiad incwm
- sicrhau fod profion modd ar gyfer y cyngor a'r cymorth troseddol a'r cymorth eiriolaeth yn cyd-fynd â'n prawf modd newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a barn gyffredinol y llywodraeth

18. Rydym wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid yn fanwl ac wedi pwysoli ein cynigion gwreiddiol yn erbyn yr argymhellion a'r pryderon a ddaeth drwodd fel themâu o'r ymatebion. At ei gilydd, cadarnhaodd yr ymatebion a gafwyd bod y rhan fwyaf o'n cynigion wedi'u cefnogi a'u bod yn cynrychioli gwaith diwygio cadarnhaol. Fodd bynnag, rydym wedi addasu a newid rhyw gymaint ar ein cynigion yn wyneb adborth. Er enghraifft, er ein bod wedi ymrwymo i godi trothwyon, byddwn yn ystyried gwerthoedd y trothwyon cyn gweithredu. Y rheswm am hyn yw i gael golwg gwell ar effaith y cyfnod diweddar o chwyddiant a difrifoldeb y pwysau ar gostau byw.
19. Rydym hefyd wedi ystyried pryderon rhanddeiliaid cyfrifon y byddai'r cyfuniad o Gredyd Cynhwysol yn ogystal â £500 o enillion o drothwy incwm, ynghyd â Graddfa Gyfwerthedd OECD yn cael effaith andwyol ar deuluoedd un rhiant o gymharu â chyplau â phlant. O'r herwydd, ein bwriad yw cyflwyno lwfans un rhiant. Bydd hyn yn gostwng yn sylweddol y niwed i'r grŵp hwn ac yn eu rhoi ar dir cyfartal ag eraill sy'n ceisio cyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyda chymorth cyfreithiol. Mae modd cael mwy o fanylion am y rhain ac am addasiadau eraill i'n mesurau arfaethedig yn hwyrach ymlaen yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad.
20. Yn ogystal, rydym wedi gwrandao ar amheuan rhanddeiliaid ynghylch effeithiau andwyol posibl y polisi Credyd Cynhwysol yn ogystal â £500 o enillion ar ddioddefwyr trais domestig. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i daclo camdriniaeth ddomestig ac rydym wedi penderfynu cefnogi goroeswyr drwy pasbortio dioddefwyr sy'n cael Credyd Cynhwysol drwy'r prawf modd pan fyddant yn gwneud cais am orchmynion gwarchodol. Mae manylion y mesur newydd hwn wedi'u cynnwys yn yr ymateb hwn.

Y camau nesaf un

21. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno Offeryn Statudol yn y Senedd er mwyn gweithredu ar gam 1 ein cynigion. Bydd Cam 1 yn cyflawni'n gyntaf meysydd y cymorth cyfreithiol sifil nad ydynt yn dibynnu ar brofion modd. Bydd y mesurau'n cyflawni mesurau nad ydynt yn dibynnu ar brofion modd i:
- bobl dan 18 oed sy'n gwneud cais am gynrychiolaeth gyfreithiol sifil, cyngor a chymorth troseddol a chymorth eiriolaeth;
 - rhieni neu rai sydd â chyfrifoldeb rhiant y mae triniaeth cynnal bywyd yn cael ei thynnu oddi wrth blant dan 18 oed neu'n cael ei hatal; a
 - pherthnasau sy'n ceisio cymorth cyfreithiol am gwest lle mae seiliau rhesymol dros gredu y gall fod yna doriad posibl i hawliau ECHR yr unigolyn; neu lle mae'r ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol i'r unigolyn yn debygol o ddod yn ei sgil manteision sylweddol i ddosbarth person, heblaw am yr unigolyn ac aelodau o deulu'r unigolyn.

22. Byddwn yn gweithredu gweddill y prawf modd a'r system gyfrannol sifil newydd nesaf yng nghanol 2. Bydd Cam 3 yn cynnwys gweithredu'r profion modd troseddol newydd, ac eithrio gwneud i ffwrdd â phasbortio cyfalaf Llys y Goron i rai sy'n cael budd-daliadau ac sy'n berchen ar dŷ. Byddwn yn gweithredu hyn fel cam 4. Mae rhagor o fanylion am weithredu'r gwaith pontio rhwng y prawf modd cyfredol a'r prawf diwygiedig i'w gweld ym mhennod 8.
23. Mae papur ymateb yn y Gymraeg ar gael ar gais. I ofyn am hwn, cysylltwch â legalaidmeanstestreview@justice.gov.uk.